



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

2 Hydref 2020

Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Y Cynghorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro
Tim Morgan (TM)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Emil Evans (EE)	Is-bennaeth	Coleg Caerdydd a'r Fro
Y Cynghorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS)
Rebecca Zammit (RZ)	Uwch Swyddog Prawf	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Hefyd yn bresennol:		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Cath Doman (CD)	Cyfarwyddwr, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Llamau/ Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Ymddiheuriadau:		
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Mark Cadman (MC)	Rheolwr Gweithrediadau Ambiwllans, Ardaloedd Caerdydd a'r Fro	Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Gareth O'Shea, (GOS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Cyfoeth Naturiol Cymru
Wendy Gunney (WG)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru

Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd NM bawb i gyfarfod rhithwir y BGC.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 10 Gorffennaf 2020</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> <p>Dywedodd FK wrth y partneriaid yr hoffai gyflwyno papur ar grynodedb o'r arian a wariwyd ar atal a'r blynyddoedd cynnar yn 2019/20 yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr. Roedd y BGC yn hapus i hwn gael ei ychwanegu at agenda cyfarfod mis Rhagfyr.</p>	HM
<p>4. Diweddariad COVID</p> <p>Rhoddodd FK y gwybodaeth ddiweddaraf i'r partneriaid am y ffigurau COVID-19 diweddaraf ar gyfer y Fro gan esbonio fod y cyfraddau'n cynyddu'n raddol gan fod yn fwy nag a adroddwyd y mis diwethaf ledled y rhanbarth ond roedd y dull rheoli rhanbarthol, POD, yn parhau i weithio'n dda. Dywedodd FK wrth y BGC y diwedderir y ffigurau trwy gydol y dydd ac y caiff achosion eu hychwanegu ar sail dyddiad y sampl, gall hyn arwain at newidiadau yn ffigurau'r diwrnodau blaenorol. Tynnodd FK sylw at 2 ffigur allweddol, canran y profion cadarnhaol a chanran yr achosion cadarnhaol fesul 100,000. Ar adeg y cyfarfod, dywedodd FK wrth y partneriaid mai 47.9 oedd y gyfradd gyfredol fesul 100,000 yn y Fro gyda 6.7% o brofion cadarnhaol. Nid yw'r feirws yn lledaenu'n fawr mewn ysgolion y Fro er y cafwyd rhywfaint o effaith ac er bod sawl achos wedi bod mewn cartrefi gofal ledled y rhanbarth, gofelir y gweithir mewn ffordd ragweithiol ac ataliol. Bu sawl achos ledled y rhanbarth ond bu llai o glystyrau yn y Fro o'i chymharu â Chaerdydd, gyda'r rhan fwyaf o'r achosion wedi'u cysylltu â gweithgareddau cymdeithasol. Dywedodd FK wrth y partneriaid fod Rhinofeirws, feirws anadlol arall sydd yn aml yn achosi'r annwyd cyffredin, yn mynd o gwmpas ac yn achosi symptomau tebyg.</p> <p>Rhoddwyd trosolwg o gyfyngiadau'r cyfnod cloi lleol sydd wedi bod ar waith ym Mro Morgannwg ers 6pm ddydd Llun 28 Medi gan RT ac atgyfnerthodd ef bwysigrwydd adolygu'n rheolaidd y data gan y bydd Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar y cyfyngiadau sydd ar waith bob 2 wythnos. Nododd RT fod oedi o 2/3 wythnos rhwng cyflwyno cyfyngiadau a chyfraddau'n gostwng fel y gwelwyd yng Nghaerffili. Mae ffocws allweddol ar gyfathrebu i sicrhau bod y cyhoedd yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl.</p>	

<p>Rhoddodd TM ddiweddariad ar sefyllfa Heddlu De Cymru gan nodi bod mis Medi wedi bod yn heriol gan fod delio gydag achosion o dorri cyfyngiadau COVID ar ben gwaith dyddiol y swyddogion heddlu. Ym mis Medi, torrwyd cyfyngiadau COVID 26 o weithiau yn Y Barri, 20 o weithiau ym Mhenarth a 10 o weithiau ledled y Fro ehangach. Mae gwaith yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd, i esbonio a gorfodi'r cyfyngiadau.</p> <p>Rhoddodd CH ddiweddariad gan GTADC - nid oedd llawer o staff yn absennol ac roedd ganddo lefelau da o gyfarpar diogelu personol (CDP). Mae busnes arferol ar y gweill ond mae COVID wedi arwain at lai o waith atal a diogelu er bod y gwasanaeth bellach wedi'i addasu i sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn dal i gael eu cefnogi ar-lein. Bydd ffocws yn y dyfodol ar aildechrau gwaith atal. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru gyda gyrru ambiwlansiau yn ôl yr angen.</p> <p>Mynegodd AH bryderon am yr effaith negyddol bosibl ar blant difreintiedig sy'n ceisio cael addysg gartref. Rhoddodd RT sicrwydd i'r partneriaid fod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau parhad dysgu plant yn y Fro. Mae gwaith wedi'i wneud i wella capasiti digidol dros yr haf ac mae llawer o fesurau bellach ar waith i gynnig offer ac adnoddau ar-lein yn ogystal â dulliau ataliol mewn ysgolion. Mae plant sy'n derbyn pryddau ysgol am ddim a allai fod yn hunan-ynysu yn ffocws allweddol yn rhan o'r maes gwaith hwn ar hyn o bryd. Dywedodd NM wrth y partneriaid fod llawer o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael ag allgáu digidol fel rhoi dyfeisiau MiFi. Gellir rhannu data ar y gwaith hwn ar draws y BGC os dymunir ac mae'r data hwnnw wedi'i gynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.</p>	
<p>5. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd</p> <p>Rhoddodd FK drosolwg o Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Caerdydd a'r Fro sef 'Ail-ddylunio Heneiddio yn y Dyfodol' a diolchodd i'r BGC am y cyfle i drafod yr adroddiad a gwaith Cheryl Williams a'r tîm. Amlinellodd FK y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghaerdydd a'r Fro a'r penodau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran diben bywyd, cysylltiadau am oes a lleoedd am oes. Nod yr adroddiad yw canolbwyntio ar wahanol agweddau heneiddio yn lle'r meysydd traddodiadol sy'n cadw pobl yn iach. Mae'r adroddiad manwl yn ychwanegol i nifer o ffeithluniau, ffilmiau a llyfryn galw i weithredu sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer sefydliadau. Nododd FK fod yr adroddiad, er ei fod â chyd-destun COVID, yn seiliedig yn bennaf ar fywyd cyn y Coronafeirws.</p> <p>Canmolodd yr adroddiad gan CJ ac RC. Dywedodd RC wrth y partneriaid fod llawer o wybodaeth am wirfoddoli a chyfleoedd gwirfoddoli'n cael ei rhoi gan GGM a C3SC. Hefyd gofynnodd RC gwestiynau am gyffredinrwydd damweiniau a chwympiadau gartref ymysg pobl hŷn a nododd fod Gofal a Thrawsio yn asiantaeth ddefnyddiol ar gyfer cynnal archwiliadau diogelwch cartref a rhoi cyngor ar ddiogelu cartrefi at y dyfodol.</p> <p>Tynnodd MC sylw at allu'r system gynllunio i greu Cynlluniau Lleoedd a nododd fod hyn yn weithgaredd buddiol iawn.</p> <p>Atgoffodd HM y partneriaid y disgwyliwyd i'r Comisiynydd Pobl Hŷn fynd i gyfarfod mis Ebrill y BGC a ganslwyd. Byddai'r Comisiynydd yn cael ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol i helpu'r BGC i ganolbwyntio ar waith ar Fro o Gyfleoedd i'r Henoed ac i ystyried materion wrth symud ymlaen.</p>	
<p>6. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol</p>	

<p>Rhoddodd TB drosolwg byr i'r partneriaid o adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Mai a fydd yn helpu i adeiladu ar waith y BGC yn y dyfodol ac i lywio cyfeiriad yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn fanwl iawn ac yn cynnwys llawer o gyngor ac arweiniad defnyddiol. Mae cydweithwyr CNC wedi creu crynodeb defnyddiol o argymhellion yr adroddiad y gellir ei roi i sefydliadau'r partneriaid i'w ddefnyddio i lywio cynlluniau yn y dyfodol.</p>	
<p>7. Arian gan Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Amlinellodd ME y £25,000 sydd wedi'i gynnig i'r BGC ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r arian ar ôl hynny a fydd ar gael dros y 3 blynedd nesaf. Nod yr arian hwn yw helpu i gynyddu swm y gweithgarwch mewn sectorau y dylid bod wedi canolbwyntio'n fwy arnynt cyn y cyfnod cloi.</p> <p>Dyweddodd HM wrth y partneriaid fod yn rhaid cyflwyno'r cynigion ar gyfer eleni erbyn 9 Hydref a rhaid cyflawni'r projectau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ar sail blaenoriaethau cyfredol y BGC, mae 4 project wedi'u hawgrymu sef; adeiladu canolfan addysg awyr agored yn rhan o ardd pawb yn Colcot a arweinir gan Dîm Tai Cyngor y Fro, project gardd CF61 GGM i ategu gwaith grŵp gwirfoddoli cyfredol, plannu coed yn dilyn canfyddiadau arolwg coed a gwella gwefan Bwyd y Fro.</p> <p>Cymeradwyodd y BGC y cynigion hyn i'w cynnig i Cyfoeth Naturiol Cymru i gael arian ar gyfer 2019/20.</p>	<p>HM</p>
<p>8. Trafodaeth: Ffocws BGC y Fro ar gyfer y Dyfodol</p> <p>Rhoddodd TB drosolwg o'r amcanion a'r projectau y mae'r BGC yn gweithio i'w cyflawni a'r myfyrdodau ar hyn sydd wedi'i ddysgu gan COVID a gafwyd yn y drafodaeth yng nghyfarfod mis Gorffennaf, gan amlinellau newidiadau, heriau a chyfleoedd ym mhob sefydliad. Fel y nodwyd yn y cyfarfod blaenorol rhoddodd TB grynodedd o brif bwyntiau'r Aseidiadau o'r Effaith ar y Gymuned a'r Economi a gynhaliwyd ar gyfer y Fro gan dynnu sylw at rai o'r effeithiau y mae COVID wedi'u cael yn y Fro. Dywedodd TB y defnyddiwyd y ddau adroddiad yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Adfer y Cyngor a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 21 Medi. Mae'r ddau adroddiad yn hygyrch fel adnoddau i bartneriaid. Diwedderir y data ar ddangosfwrdd Asesu'r Economi bob mis.</p> <p>Rhoddodd NM sicrwydd i'r partneriaid fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r effeithiau y mae COVID wedi'u cael ar y gymuned fel y dangosir trwy'r newidiadau mewn rheolau ar gyfer pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru heddiw. Dywedodd RC wrth y partneriaid fod llawer o wasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn llwyddiannus wrth addasu i sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael ar-lein. Nododd FK fod modd gweld yn glir o'r ystadegau yr heriau y byddwn yn eu hwynebu a'r posibilrwydd o wella anghydraddoldeb trwy hyn.</p> <p>Rhoddodd HM ddiweddariad i'r partneriaid ar y cynnydd wedi'i wneud hyd yma yn erbyn 4 blaenoriaeth y BGC.</p> <p>Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd Roedd Siarter Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd ddrafft wedi'i ddatblygu gan y BGC a ategwyd gan gynlluniau sefydliadol unigol a chamau gweithredu ar y cyd, lle bo'n bosibl. Mae Grŵp Rheoli Asedau'r BGC wedi'i sefydlu</p>	

ac mae'r Siartr Teithio'n lach i Staff wedi'i lansio. Mae cydweithwyr yn awyddus i symud y gwaith hwn yn ei flaen ac mae'n cysylltu ag adferiad gwyrdd.

Symud Mwy, Bwyta'n Dda: Lanswyd y Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda ym mis Gorffennaf gyda ffocws 2 gam wedi'i gytuno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Mae gweithgareddau Bwyd y Fro yn parhau gyda chyfarfodydd rheolaidd a gwaith i dreialu project tlodi bwyd mewn ardal leol yn y Fro ar y gweill.

Bancio Amser: Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bancio Amser wedi'i sefydlu ac mae arian gan Gronfa Atal a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar gyfer 2020/21. Ail-edrychir ar y disgrifiad swydd a'r fanyleb person a ddrafftwyd yn flaenorol er mwyn adlewyrchu effeithiau COVID. Cynigiwyd ehangu cwmphas y flaenoriaeth hon er mwyn canolbwyntio'n fwy ar wirfoddoli'n gyffredinol.

Ymgysylltu: Sefydlodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gysylltiadau da rhwng partneriaid ac er nad yw wedi cwrdd ers tipyn mae bellach wedi datblygu'n rhwydwaith rhithwir. Y flwyddyn nesaf bydd angen gwaith ymgysylltu sylweddol yn rhan o'r Asesiad Lles a bydd angen mwy o drafod ar sut y ceir yr adnoddau ar gyfer y gwaith hwnnw gan gynnwys cysylltiadau â'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth.

Rhoddodd CD o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) drosolwg o'r gwaith y mae'r BPRh wedi'i wneud i ail-lunio gwaith y Bwrdd a sut y gellir sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd yn well â gwaith y BGC. Nid yw'r BPRh yn canolbwyntio ar ganlyniadau a lunnir gan arian byrdymor mwyach ond yn hytrach ar ganlyniadau a lunnir gan bobl a grwpiau iechyd y boblogaeth.

Dyma gyfle i'r BPRh a'r BGC sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd yn well a chael mwy o effaith. Tynnodd NM sylw at y ffaith fod llawer o amrywiaeth ledled y rhanbarth ac yr oedd yn bwysig cynnal ffocws lleol.

Diolchodd AH i CD am y trosolwg defnyddiol a chydabu y byddai'n annog sefydliadau i fod yn uchelgeisiol o ran sicrhau bod y system yn ddidrafferth ar draws wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Dyweddodd TM fod hyn yn cynnig cyfle i uno dadansoddeg er mwyn gweithio tuag at gyd-ddealltwriaeth fwy effeithlon o risg ac wedyn ddefnyddio hyn i osgoi dyblygu ymdrech ond hefyd i sicrhau y gwneir yr ymyriadau cywir ar yr adeg gywir. Bydd hyn yn ein helpu i nodi'n gynnar bobl sy'n agored i niwed ac i ymyrryd er mwyn atal problemau cymhleth rhag datblygu a fydd yn y pen draw yn effeithio ar bartneriaid addysg, y gwasanaeth heddlu a chyfiawnder troseddol. Byddai'r gwasanaethau PPU yn awyddus iawn i gysylltu â hyn ac i helpu.

Gofynnodd MC sut y byddai'r cynlluniau'n cael eu cyfathrebu i'r gymuned. Awgrymodd NM y gallai'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol symud hyn yn ei flaen. Cytunodd MC i godi hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Dywedodd CJ y byddai'n hapus i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Dyweddodd RT wrth y grŵp fod llawer o drafodaethau wedi bod ledled Cymru ar y perthnasau rhwng BGCau a BPRhau. Myfyriodd RT ar drafodaethau cynharach ar brif effeithiau COVID a 4 blaenoriaeth y BGC ac awgrymodd y dylai gwaith y BGC barhau ar y rhain ac y dylai gwaith y BPRh fod ochr yn ochr â hyn. Mae angen i'r BGC fyfyrion ar y

MC

<p>wybodaeth hon a'r argymhellion o adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac ystyried ble mae bylchau y gellir eu llenwi gan y BGC, neu os yw eraill mewn sefyllfa well i fynd ag agweddau gwahanol ar y gwaith yn eu blaen. Er enghraifft, yn achos gwirfoddoli, mae llawer o waith wedi'i wneud gan y GGM a grwpiau gwirfoddoli lleol trwy Arwyr y Fro a byddai'n siomedig colli'r momentwm hwn. Dywedodd RC wrth y partneriaid fod niferoedd gwirfoddoli wedi bod yn gyfnewidiol mewn ymateb i COVID ac er bod y niferoedd yn uchel, mae bellach yn dechrau gostwng wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol ac wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith. Mae'n bwysig cynnal y gefnogaeth a'u diddordeb. Atgyfnerthodd NM bwysigrwydd cydweithio tra'n cydnabod y gwahaniaeth mewn cymunedau ar draws ardaloedd.</p> <p>Diolchodd CD i'r BGC am ei anogaeth ac awgrymodd y dylai hi a TB gyfarfod i drafod sut i fynd â'r gwaith hwn ymlaen.</p>	TB
<p>9. Y Flaenraglen Waith</p> <p>Tynnodd TB sylw ar y rhestr o eitemau agenda posibl ac ailadroddodd y bydd agenda cyfarfod mis Rhagfyr y BGC yn cynnwys papur FK ar yr arian a wariwyd ar atal yn 2020/21. Croesawodd TB y partneriaid i gysylltu ag ef neu HM pe bai unrhyw eitemau ganddynt yr hoffent eu trafod mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol.</p>	
<p>10. Unrhyw Fater Arall</p> <p>Rhoddwyd AH wybod i'r partneriaid am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y BPRh i lunio cynlluniau diogelu yn ystod y gaeaf yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Tynnodd AH sylw at y gorgyffwrdd posibl rhwng cynlluniau chwarter 3/4 y Byrddau Iechyd a chynlluniau diogelu yn ystod y gaeaf y BPRh a hoffai gyflwyno'r Cynlluniau mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol.</p>	
<p>11. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4 Rhagfyr 2020 10.30am - 12:30pm</p>	